PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **17 MAI 2019**

TEITL: **DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU**

PWRPAS: **GALLUOGI AELODAU I GYNLLUNIO'N BRIODOL**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae dyddiadau nifer o gyfarfodydd Pensiynau wedi cael eu gosod am y flwyddyn hyd at Mai 2020 yn barod. Mae'r dyddiadau isod er hwylustod.

## 2. DYDDIADAU'R BWRDD PENSIWN

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am **drosolwg** ar reolaeth a gweithrediad y Gronfa Bensiwn, ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Penderfynwyd yn ddiweddar i gadw at y cylch o 4 cyfarfod mewn blwyddyn, ac mae cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn am y flwyddyn wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**17 Mai 2019**

**24 Medi 2019**

**10 Rhagfyr 2019**

**9 Mawrth 2020**

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn arfer mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Pensiwn, ac yn atebol yno am benderfyniadau'r Pwyllgor.

## 3. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN - 24 HYDREF 2019

Mae'r cyfarfod yma am 1:00yp yn Siambr Dafydd Orwig. Mae gwahoddiad i gyflogwyr y gronfa anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod hwn. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn i'r rhai sydd yn mynychu ac mae'n gyfle iddynt wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mae gwahoddiad i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau i'r Cyfarfod Blynyddol.

Os oes angen i'r Pwyllgor Pensiynau wneud penderfyniad ym mis Hydref, bydd cyfarfod Pwyllgor yn cael ei drefnu naill ai cyn neu ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 4. DYDDIADAU'R PWYLLGOR PENSIYNAU

Y Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sy'n gwneud **penderfyniadau** ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Mae'r cyfarfodydd o'r Pwyllgor Pensiynau, i ddelio gyda phenderfyniadau yn ystod y flwyddyn, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**16 Mai 2019**

**29 Gorffennaf 2019**

**24 Hydref 2019**

**16 Ionawr 2020**

**12 Mawrth 2020**

Mae aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn arfer mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, fel arsyllwr.

## 5. DYDDIADAU CYDBWYLLGOR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae aelodaeth y Cydbwyllgor sydd wedi'i sefydlu er mwyn llywodraethu pŵlio buddsoddiadau dros yr wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol Gymreig yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau (neu aelod arall o'r Pwyllgor) o bob cronfa.

Mae cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor wedi'u trefnu ar:

**28 Mehefin 2019 Caerdydd**

**20 Medi 2019 Pont-y-pŵl**

Fel arfer, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng 10:00yb a 1:00yp, ac mae cyfleusterau gwe-ddarlledu ar gael ym mhob lleoliad.

Mae bob cylch o 4 cyfarfod yn cynnwys un cyfarfod yng Nghaerdydd, un cyfarfod ym Mhowys, a'r ddau gyfarfod arall yn cael eu cynnal yn y 6 lleoliad arall ar sail rota. Mae'r system hon wedi'i gytuno er mwyn uchafu mynediad rhanddeiliaid i'r cyfarfodydd cyhoeddus yma.

Mae Cyngor Sir Gâr, fel awdurdod lletya, yn trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyd-lywodraethu gyda chyfleusterau cyfieithu llawn.

## 6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd nodi'r dyddiadau perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd ac i gynllunio'n briodol.